# Y Pwyllgor Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.40** |

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio Dadl Fer Leanne Woods tan 22 Ebrill.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau busnes canlynol:

**Dydd Mercher 29 Ebrill 2015 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio a gweithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddadl Aelod Unigol ganlynol ar ôl toriad y Pasg a bydd yn cadarnhau'r dyddiad yn ei gyfarfod nesaf:

**Ar ôl toriad y Pasg –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

  **NNDM5715**
  **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
  **William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Lynne Neagle (Torfaen)**
**William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i

a) Annog moratoriwm ar gloddio glo brig ledled Cymru, er mwyn canfod a yw cyfraith cynllunio a chanllawiau cyfredol yn darparu digon o amddiffyniad i gymunedau yr effeithir arnynt gan gloddio glo brig;

b) Ymateb i Ymchwil i'r Methiant i Adfer Safloeoedd Glo Brig yn ne Cymru, gan ddatgan yn benodol sut y gallai fynd i'r afael â phryderon ynghylch pa mor ymarferol yw MTAN2 a'r glustogfa 500m; a

c) Cefnogi'r awdurdodau lleol yr effeithir arnynt i wneud heriau cyfreithiol, lle bo angen, wrth geisio adfer safleoedd.

## 4 Amserlen y Cynulliad

4.1 Dyddiadau Toriadau 2015-16

Trafododd y Rheolwyr Busnes ddyddiadau toriadau dros dro hyd at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad. O ystyried amseriad y Pasg 2016, a'i agosrwydd at ddiddymiad y Cynulliad, ystyriodd y Pwyllgor amryw o opsiynau mewn perthynas â'r toriad hwnnw.

Yn wyneb sicrwydd a roddwyd gan Weinidog Busnes y Llywodraeth ei bod yn ymddangos bod digon amser ar gael ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar eu hoff ddewis a dychwelyd at y mater yn eu cyfarfod ar 21 Ebrill 2015.

## 5 Cyfarfod Llawn

5.1 Trefniadau Cyflwyno ar gyfer Toriad y Pasg

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer cyfnod toriad y Pasg.

**Unrhyw Fater Arall**

Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chyflwyno gwelliannau hwyr cyn diddymiad Senedd bresennol y DU ar 30 Mawrth. Ni ddisgwylir rhagor o welliannau hwyr lle bydd angen Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Er bod hyn yn annhebygol, pe bai Llywodraeth y DU yn rhoi hysbysiad am welliant hwyr arall yr wythnos nesaf – a byddai’n ddoeth gwneud y gwelliant hwnnw’n gymwys i Gymru – awgrymodd y Gweinidog na fyddai amser i osod memorandwm a chynnal dadl i gytuno ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.